



City and County of
Swansea

PARCIO

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
2010 / 2011**

1. CYFLWYNIAD

Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol yr ydym wedi'i gyhoeddi yn unol â gofynion Deddf Rheoli Traffig 2004. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Dinas a Sir Abertawe'n cyflwyno ei wasanaethau parcio ac yn ceisio rhoi'r gwasanaeth hwn mewn cyddestun â'n dyletswyddau a'n polisïau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r rhwydwaith ffyrdd.

Prif bryderon yr Is-adran Gwasanaethau Parcio yw sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yn gweithredu mor effeithiol â phosib, yn cydbwyso galw gwrthdrawiadol, yn deg i ddefnyddwyr ffyrdd sylwgar sy'n ufudd i'r gyfraith ac yn ystyried amgylchiadau unigol a gyflwynir fel rheswm dros dramgwyddau.

Deïllir y bydd gan grwpiau gwahanol ar draws ardal Dinas a Sir Abertawe anghenion parcio gwahanol. Ein nod yw cydbwyso'r anghenion hynny, er mwyn sicrhau ei bod hi'n system deg i bawb. Er nad yw cyfyngiadau parcio'n boblogaidd ymhlith modurwyr yn aml, hebddynt byddai tagfeydd traffig mwy sylweddol sydd ar adegau'n stopio'r traffig yn stond. Adeiladwyd Abertawe mewn cyfnod pan nad oedd llawer o draffig modur ac ar y pryd hwnnw ni allai cynllunwyr fod wedi rhagweld nifer y bobl sy'n berchen ar gerbydau erbyn hyn.

Mae amrywiaeth eang o grwpiau y mae angen gwasanaethau parcio a theithio arnynt, gan gynnwys preswylwyr, busnesau, cymudwyr, pobl anabl, siopwyr, myfyrwyr ac ymwelwyr. Trwy reoli traffig a pharcio, mae'r cyngor yn sicrhau y gellir rhannu'r manau parcio sydd ar gael mewn ffordd deg ac agored. Nid dull o godi arian yw gorfodi'r rheoliadau parcio. Ni phennir unrhyw dargedau a chaiff unrhyw incwm dros ben ei fuddsoddi mewn gwelliannau rheoli traffig.

Pan roddwyd Deddf Rheoli Traffig (Rhan 6) ar waith ar 31 Mawrth 2008 ac yna cyflwynodd y cyngor gais llwyddiannus i Lywodraeth Cynulliad Cymru a ddynododd Ddinas a Sir Abertawe'n Ardal Gorfodi Sifil ar gyfer Tramgwyddau Parcio a hefyd yn Ardal Gorfodi Arbennig, cafodd y cyngor gyfle i adolygu gorfodi parcio. Ar ôl i bwerau gael eu trosglwyddo o'r heddlu i'r cyngor, sefydlwyd yr Is-adran Gwasanaethau Parcio o fewn Is-adran Traffig yr Adran Trafnidiaeth dan arweiniad Cyfarwyddwr yr Amgylchedd.

Yn ei arweiniad mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi amlinellu gofyniad i sicrhau bod gorfodi'n dryloyw, yn gyson ac yn deg. Mae Cyngor Abertawe wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ei orfodi'n bodloni'r tri maen prawf hyn a'i fod yn gymesur â'r amgylchiadau.

Mae'r cyngor yn ceisio cofio bod amgylchiadau dilys weithiau'n arwain at roi Hysbysiad o Dâl Cosb ac y gallai'r gyrrwr fod wedi gwneud ei orau glas i gydymffurfio â'r cyfyngiadau, neu fod ganddo reswm da arall i'w gyflwyno. Rydym yn cydnabod bod gennym ddyletswydd bwysig i ystyried "amgylchiadau argyhoeddiadol" a defnyddio ein disgrisiwn yn briodol.

Yn unol â pholisi'r cyngor ar dryloywder, rydym wedi cyhoeddi ein canllawiau lliniarol ar wefan y cyngor.

http://www.swansea.gov.uk/media/word/0/d/Discretion_Guidance_Statutory_Grounds_21_01_09.doc

Yn ogystal â sicrhau y gall modurwyr asesu a yw eu hamgylchiadau'n galluogi'r cyngor i ddiddymu eu Hysbysiad o Dâl Cosb, mae hyn hefyd yn sicrhau cysondeb wrth drin y swm uchel o bost a dderbynnir gan fodurwyr sydd wedi derbyn Hysbysiad o Dâl Cosb.

Mae'r mwyafrif llethol o fodurwyr yn parcio'n gyfreithiol ac yn gall. Mae'n bosib bod rhai gyrwyr sy'n derbyn Hysbysiadau o Dâl Cosb heb fwriadu parcio'n groes i'r Gorchymyn Traffig a'u bod weithiau wedi camddeall natur y cyfyngiadau. Fodd bynnag, mae gan fodurwyr gyfrifoldeb i gymryd sylw o'r arwyddion cyfyngiadau a chydymffurfiol â hwy.

Yn yr un modd mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau'n cael eu dangos yn glir ac ystyried lle y gellir dysgu gwersi o nifer y tramgwyddau sy'n cael eu cyflawni.

Dyma a ddigwyddodd ar Ffordd Mynydd Gelliwastad wrth nesáu at Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Treforys. Nid oedd modurwyr yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau clirffordd a fu ar waith ers sawl blwyddyn. Arweiniodd hyn at gwynion gan Wasanaethau Ambiwlans Cymru nad oeddent yn gallu cael mynediad at yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ar adegau. Gyda chleifion difrifol sâl gallai oedi fel hyn beryglu bywydau, felly cafodd y cyfyngiadau eu haddasu a gosodwyd llinellau melyn ar arwyneb y ffordd i atal parcio a llwytho/dadlwytho ar unrhyw adeg. Mae'r ymdrech i wneud y cyfyngiadau hyn yn fwy amlwg wedi bod yn llwyddiannus iawn, gydag ambiwlansiau bellach yn cael mynediad clir a gostyngiad trawiadol yn nifer yr hysbysiadau o dâl cosb a roddir.

Yn anffodus, mae lleiafrif cyndyn o fodurwyr yn Abertawe nad ydynt yn rhoi unrhyw sylw i gyfyngiadau sy'n parcio'n anghyfreithlon oherwydd ei fod yn gyfleus iddynt hwy ac nad ydynt yn ystyried yr anghyfleustra i bobl eraill. Mae hyn yn annerbyniol oherwydd y gall parcio'n anghyfrifol achosi tagfeydd a llygredd traffig yn gyflym. Mae'n cynyddu nifer y damweiniau'n sylweddol ac mae'n annheg i'r mwyafrif o fodurwyr sy'n parcio eu ceir yn briodol ac yn gyfreithlon. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd 17, 636 o fodurwyr wedi derbyn 5 neu fwy o hysbysiadau o dâl cosb am dramgwyddau parcio gydag un modurwr wedi derbyn 63 o hysbysiadau o dâl cosb. Mae ar y troseddwy cyndyn hyn ar hyn o bryd daliadau heb eu talu gwerth £130,000.

Er nad ydym am stigmatiddio unrhyw grŵp o fodurwyr, yn anffodus mae'n ymddangos bod un grŵp yn credu bod ganddynt hawl i barcio mor agos at gatiâu ysgol â phosib. Mae'r Is-adran Gwasanaethau Parcio'n derbyn cwynion gan lawer o ysgolion, preswylwyr a rhieni sy'n cwyno am barcio y tu allan i ysgolion. Mae hyn yn amharu ar ddiogelwch un o'n grwpiau mwyaf bregus, ein plant.

Mae'r Is-adran Gwasanaethau Parcio'n gweithio'n agos â'r Is-adran Diogelwch Ffyrdd. Mae'n targedu ysgolion lle nodir y perygl mwyaf.

Ceir nifer o ddogfennau, cyhoeddiadau a gwefannau defnyddiol sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â parcio a sut mae'r prosesau gorfodi ac apelio'n gweithio.

Mae Cymdeithas Barcio Prydain, mewn partneriaeth â'r gymdeithas ddefnyddwyr *Which?*, wedi cyhoeddi arweiniad i barcio. Cyfeiriad eu gwefan yw www.britishparking.co.uk

Mae P.A.T.R.O.L. (Rheoliadau Parcio a Thraffig y Tu Allan i Lundain) wedi cyhoeddi arweiniad i orfodi hysbysiadau o dâl cosb a'r gweithdrefnau apelio cysylltiedig. Cyfeiriad gwe'r ddogfen hon yw http://www.patrol-uk.info/downloads/Process_Map.pdf

Mae'r cyngor hefyd wedi cyhoeddi ei ddogfen ei hun, *Strategaeth, Gweithdrefnau a Pholisi*, sy'n rhoi arweiniad ar sut mae heriau a sylwadau'n cael eu trin. Ceir dolen i'r ddogfen hon ar wefan gyhoeddus y cyngor. http://www.swansea.gov.uk/media/pdf/p/0/Car_Parking_Enforcement_Strategy_2011.pdf

2. Lleoedd Parcio yn Ninas a Sir Abertawe

Mae prinder lleoedd parcio ar strydoedd ac oddi arnynt. Mae'r cynnydd yn nifer y perchnogion cerbydau dros y 10 mlynedd diwethaf yn benodol wedi cynyddu'r galw am lleoedd parcio. Yr ardaloedd lle mae hyn ar ei amlycaf yw lle mae adeiladau wedi cael eu haddasu i ddarparu llety ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe a'r ardaloedd preswyl o gwmpas y ddau gyfleuster addysg uwch.

Er mwyn rheoli galw cystadleuol preswylwyr amser llawn, myfyrwyr, cymudwyr, gweithwyr ac ymwelwyr, roedd angen dyrannu lleoedd parcio i grwpiau penodol o bobl megis y rhai anabl, preswylwyr, y gymuned fusnes a pharcio tymor byr, yn ôl yr angen. Mae cydbwysio anghenion y grwpiau amrywiol hyn yn allweddol i dwf economaidd a llwyddiant parhaus ardal y Ddinas a'r Sir.

Mae Dinas a Sir Abertawe'n cynnwys nifer o ardaloedd masnachol y mae preswylwyr lleol yn ymweld â hwy bob dydd/wythnos. Mae parciau manwerthu ar gyrion trefi hefyd wedi cael effaith ar yr ardaloedd hyn. Yn ogystal, mae Abertawe'n lleoliad poblogaidd i dwristiaid gyda'r Mwmbwls a Gŵyr. Mae lleoliadau megis yr LC, y Marina, Amgueddfa'r Glannau a Plantasia, ynghyd â lluo o ddigwyddiadau arbennig megis Sioe Awyr Cymru a Ras Feicio Taith Prydain, hefyd yn cael effaith sylweddol ar barcio.

Mae Stadiwm Liberty, sy'n gartref i Glwb Pêl-droed Dinas Abertawe a Chlwb Rygbi Undeb y Gweilch ac yn cynnal amrywiaeth o gyngherddau a digwyddiadau, hefyd yn creu galw am lleoedd parcio. Gyda dyrchafiad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe i'r Uwch-gynghair, rhagwelir y bydd y cefnogwyr ychwanegol yn creu hyd yn oed mwy o alw am lleoedd parcio o gwmpas y stadiwm lle mae prinder ar hyn o bryd.

Caiff y ddarpariaeth barcio ei hadolygu'n rheolaidd. Mae swyddogion o'r Is-adran Gwasanaethau Parcio'n mynd yn rheolaidd i gyfarfodydd PACT er mwyn ystyried barn preswylwyr. Mae cyfarfodydd diweddar â masnachwyr canol y ddinas ac, yn benodol, BIDS

(Ardal Gwella Busnes) Abertawe, wedi galluogi'r cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus ar sail polisiâu parcio ac amgylcheddol cyfredol. Mae'r cyngor yn ystyried sawl ffactor gan gynnwys:

- ◆ Oriau parcio a reolir
- ◆ Uchafswm cyfnodau aros
- ◆ Mathau o ddefnydd ar gyfer cilfannau parcio unigol
- ◆ Ffioedd a godir
- ◆ Meini prawf ar gyfer ardaloedd parcio a reolir
- ◆ Meini prawf ar gyfer ardaloedd parcio i breswylwyr.

Mae'r cyngor yn rheoli 37 o feysydd parcio talu ac arddangos oddi ar y stryd ar draws ardal Dinas a Sir Abertawe. Mae'r meysydd parcio hyn wedi'u lleoli'n strategol i sicrhau mynediad i ganol y ddinas ac ardaloedd masnachol a thwristaidd. Yn ogystal, mae meysydd parcio am ddim yng Ngorseion, y Mwmbwls, Tregŵyr a Phontarddulais.

Canol y Ddinas

Mae'r cyngor yn rheoli tri maes parcio aml-lawr yng nghanol y ddinas; mae NCP yn berchen ar 3 maes parcio aml-lawr eraill ac yn eu rheoli. Mae gan Tesco faes parcio gerllaw'r archfarchnad yng nghanol y ddinas sy'n cynnig lle parcio am ddim am 2 awr ac mae hefyd faes parcio danddaear preifat. Darperir mwy o leoedd parcio ym Mharc Tawe a Sainsbury's ar gyrion canol y ddinas.

Yn gyffredinol, mae 7,288 o leoedd parcio oddi ar y stryd yng nghanol y ddinas. Mae ffioedd yn amrywio gan ddibynnu ar y perchennog a'r dynodiad. Caiff meysydd parcio'r cyngor eu dynodi'n arhosiad hir neu fyr. Mae tri wedi'u dynodi ar gyfer deiliaid tocynnau tymor yn unig ac mae un, Gorllewin Stryd y Parc, wedi'i neilltuo'n llwyr ar gyfer deiliaid bathodynau glas.

Mae Tabl 1 isod yn rhoi dadansoddiad o'r meysydd parcio hyn yn ôl dynodiad a perchennog.

Tabl 1

Lleoliad	Cyfanswm lleoedd	Lleoedd i'r anabl	Math	Dynodiad	Perchennog
Ffordd y Brenin	320	4	Maes Parcio Aml-lawr	Arhosiad Hir	NCP
Stryd y Berllan	512	3	Maes Parcio Aml-lawr	Arhosiad Hir	NCP
Salubrious Passage	255	15	Maes Parcio Aml-lawr	Arhosiad Hir	NCP
Y Cwadrant	517	30	Maes Parcio Aml-	Arhosiad Byr	Y Cyngor

			lawr		
Dewi Sant	460	33	Maes Parcio Aml- lawr	Arhosiad Byr	Y Cyngor
Stryd Fawr	716	30	Maes Parcio Aml- lawr	Arhosiad Hir	Y Cyngor
Stryd Mariner	164	5	Arwyneb	Arhosiad Hir	Y Cyngor
Teras Clarence	77	0	Dan Do	Arhosiad Hir	Y Cyngor
East Burrows	230	6	Arwyneb	Arhosiad Hir	Y Cyngor
Y Strand	218	12	Arwyneb	Arhosiad Hir	Y Cyngor
Glanfa Pockett	53	2	Arwyneb	Arhosiad Hir	Y Cyngor
Stryd Paxton`	331	0	Arwyneb	Arhosiad Hir	Y Cyngor
Stryd Pell	30	3	Arwyneb	Arhosiad Byr	Y Cyngor
Dwyrain Stryd y Parc	31	6	Arwyneb	Arhosiad Byr	Y Cyngor
Stryd Rhydychen	116	27	Arwyneb	Arhosiad Byr	Y Cyngor
Lôn Northampton	84	4	Arwyneb	Arhosiad Byr	Y Cyngor
YMCA	25	2	Arwyneb	Arhosiad Byr	Y Cyngor
Worcester Place	21	2	Arwyneb	Arhosiad Byr	Y Cyngor
Y Glannau	220	20	Arwyneb	Arhosiad Byr	Y Cyngor
Gorllewin Stryd y Parc	15	151	Arwyneb	Anabl	Y Cyngor
Lôn Picton	42	3	Arwyneb	Deiliaid trwyddedau	Y Cyngor
Salubrious Place	26	0	Arwyneb	Deiliaid trwyddedau	Y Cyngor
Stryd Madog	24	0	Arwyneb	Deiliaid trwyddedau	Y Cyngor
Heol Ystumllwynarth	391	12	Arwyneb	Arhosiad Hir	Y Cyngor
Parc Tawe	1288	50	Arwyneb	Am ddim	Preifat
Tesco	455	30	Arwyneb	Am ddim	Tesco
Sainsbury's	677	30	Arwyneb	Am ddim	Preifat
Potter's Wheel	21	0	Danddaear	Preifat	Preifat

Dengys Tabl 2 isod y system codi tâl ar gyfer meysydd parcio canol y ddinas sydd wedi cael ei defnyddio gan y cyngor ers mis Ebrill 2011.

Tabl 2

Arhosiad Hir		Ffioedd
East Burrows	Hyd at 1 awr	£1.20
Stryd Mariner	Hyd at 2 awr	£2.40
Paxton	Hyd at 3 awr	£3.50
Glanfa Pockett	Hyd at 4 awr	£4.50
Strand	Trwy'r dydd	£6.00
Coetis	Hyd at 2 awr/	£4.00

	Trwy'r dydd	£6.00
--	--------------------	--------------

Arhosiad Byr		Ffioedd	Consensiynau Bathodyn Glas	
Northampton	Hyd at 1 awr	£1.20	Hyd at 2 awr	70c
Stryd Rhydychen	Hyd at 2 awr	£2.40	Hyd at 3 awr	£1.20
Dwyrain Stryd y Parc	Hyd at 3 awr	£3.50	Trwy'r dydd	£2.40
Stryd Pell				
Worcester Pl				
YMCA				
Salubrious (Sad)				

Y Glannau/LC Heol Ystumllwynarth	Llun - Sad 6.30am-10.30pm	
	Hyd at 2 awr	£2.00
	Hyd at 3 awr	£3.00
	Hyd at 4 awr	£4.00
	Hyd at 5 awr	£5.00
	Trwy'r dydd	£7.00

Parcio Diogel		Ffioedd Newydd
Teras Clarence	Hyd at 1 awr	£1.50
	Hyd at 2 awr	£3.00
	Hyd at 3 awr	£4.50
	Hyd at 4 awr	£6.00
	Trwy'r dydd	£7.00

Parcio i'r Anabl		Ffioedd
Gorllewin Stryd y Parc	Hyd at 2 awr	70c
	Hyd at 3 awr	£1.20
	Trwy'r dydd	£2.40

Mae nifer cyfyngedig o leoedd parcio ar Stryd Plymouth a Stryd Rhydychen. Cilfannau parcio cyfnod byr (20 munud) a reolir gan beiriannau talu ac arddangos. Yn ogystal mae cilfannau parcio cyfnod penodol am ddim ar y Stryd Fawr.

Mae cilfannau llwytho/dadlwytho ar draws canol y ddinas. Mae cilfannau parcio dynodedig i'r anabl ar Sgwâr y Santes Fair, Stryd y Berllan a'r Stryd Fawr. Mae safleoedd taccis dynodedig ar Stryd Efrog, Stryd Portland, Ffordd y Brenin, Stryd Newton a Stryd Caer.

Y Tu Allan i Ganol y Ddinas

Er mwyn cefnogi canol y ddinas a chyd-fynd â'r trefniad parcio, mae'r cyngor yn darparu tri chyfleuster parcio a theithio rhagorol. Mae'r rhain ar lwybrau strategol i'r ddinas ar Ffordd Fabian i'r dwyrain, Fforestfach i'r gorllewin a Glan-dŵr i'r gogledd. Cyfleusterau arhosiad hir rhatach amgen yw'r rhain, gan weithio mewn partneriaeth â First Cymru, sy'n cludo ein cwsmeriaid i ganol y ddinas trwy goridorau bws sy'n sicrhau bod yr amser a gymerir i'w cludo i ganol y ddinas cyn lleied â phosib.

Y tu allan i ganol y ddinas mae nifer o feysydd parcio yn agos at ardaloedd masnachol megis y Mwmbwls, Gorseinon, Treforys a Thregŵyr. Er bod y meysydd parcio yng Ngorseinon a Threforys am ddim ar hyn o bryd, mae'r cyngor wedi cytuno i ddechrau codi ffioedd yn unol â'r rhai a godwyd yn y Mwmbwls ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12. Gweler Tabl 3 isod:

Mae'r cyngor yn codi ffioedd llai yn y meysydd parcio a bwriedir i'r ffioedd hyn sicrhau bod ymwelwyr yn cael y budd mwyaf posib o bob arhosiad dydd yn yr ardal. Yn wreiddiol roedd ffioedd tymhorol yn cael eu codi ar gyfer y meysydd parcio hyn. Fodd bynnag, yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cyflwynwyd ffioedd i'r gaeaf. Cafodd y polisi hwn ei adolygu ar ôl ymgynghori â chynghorau tref/cymuned a'r cymunedau busnes ac mae'r ffioedd hyn wedi cael eu lleihau o fis Hydref 2011.

Tabl 3

Y Mwmbwls		Ffioedd	Consesiynau Bathodyn Glas	
Meysydd parcio'r Llaethdy, y Chwarel a'r Blaendraeth.	Hyd at 1 awr	50c	Hyd at 2 awr	50c
	Hyd at 2 awr	£1.20	Hyd at 4 awr	£1.20
	Trwy'r dydd	£4.50	Trwy'r dydd	£2.40

Mae lleoedd parcio hefyd ar gael mewn meysydd parcio yn agos at leoliadau twristaidd a diwylliannol megis Porth Einon, Caswell, Langland, Parc Gwledig Clun, Parc Singleton a blaendraeth Bae Abertawe. Dengys Tabl 4 isod y ffioedd ar gyfer y meysydd parcio hyn:

Tabl 4

Y Blaendraeth a'r Traeth		Ffioedd yr Haf	Ffioedd y Gaeaf	Consesiynau Bathodyn Glas	
Clun Southend Bae Bracelet Bae Caswell Bryn Caswell Bae Langland	Hyd at 1 awr	£1.30	50c	Hyd at 4 awr	£1.30
	Hyd at 2 awr	£2.50	£1.20	Trwy'r dydd	£2.50
	Trwy'r dydd	£5.00	£4.50		

Porth Einon Horton Lôn Sgeti Baddonau					
Coetsis	Hyd at 2 awr Trwy'r dydd	£4.00 (hyd at 4 awr) £6.00			

Mae maes parcio mawr i ddiwallu anghenion Prifysgol Abertawe; fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r cyfleusterau hyn yn darparu ar gyfer pob myfyriwr a gweithiwr gan fod llawer o gerbydau'n cael eu parcio ar y strydoedd preswyl o amgylch y brifysgol.

Mae ardaloedd parcio a reolir wedi cael eu cyflwyno mewn sawl ardal. Yng nghanol y ddinas mae'r ardal yn gwahardd parcio ar linellau melyn unigol rhwng 8am a 6pm. Bwriedir i hon sicrhau llif hwylus y traffig yn ystod y dydd wrth alluogi parcio ar y stryd gyda'r hwyr. Yn Sandfields a St Thomas mae'r ardaloedd wedi cael eu cyflwyno i gefnogi'r preswylwyr. Mae hefyd ardal a reolir ym Mharc Menter Abertawe i hwyluso llif y traffig.

Trwyddedau Parcio

Mae'r Ganolfan Gyswllt yn y Ganolfan Ddinesig yn gyfrifol am ddsbarthu trwyddedau parcio. Gall ymgeiswyr naill ai galw heibio'n bersonol neu gyflwyno cais trwy'r post. Ceir pedwar trwydded: i breswylwyr, ymwelwyr teuluol, ymwelwyr ar eu gwyliau a chynorthwyr gofal.

Trwyddedau Preswylwyr: Mae pob trwydded yn benodol i'r cerbyd a'r lleoliad. Er mwyn cael trwydded, mae'n rhaid i'r ymgeisydd:

- ◆ fod yn berchen ar gerbyd dan sylw yn y cais ac yn ei yrru a
- ◆ chyflwyno Dogfen Gofrestru'r Cerbyd (V5) a thrwydded yrru gyfredol; dangos enw a chyfeiriad yr ymgeisydd fel yr uchod.

Ni roddir trwyddedau ar gyfer cerbydau masnachol sy'n pwysu mwy na 3500kg gros, carafanau bach na cherbydau sy'n fwy na 2.35 o uchder a 5.35 o hyd.

Trwydded Ymwelydd Teuluol: Mae'r trwyddedau hyn yn benodol i'r cerbyd a'r lleoliad. Cânt eu rhoi i aelodau teuluoedd ond dim ond lle nad oes trwydded preswlydd wedi cael ei rhoi i'r aelwyd dan sylw.

Trwydded Ymwelydd ar Wyliau: Unwaith eto, mae'r trwyddedau hyn yn benodol i'r cerbyd a'r lleoliad. Cânt eu rhoi i bobl nad ydynt yn byw yn Abertawe ond sy'n aros dros nos am fwy na 3 diwrnod. Un drwydded yn unig y gellir gwneud cais amdani ar y tro, ond gellir gwneud cais am hyd at 4 trwydded mewn unrhyw flwyddyn.

Trwydded Cynorthwy-ydd Gofal: Er bod y trwyddedau hyn yn benodol i'r cerbyd, maent yn caniatáu i'r deiliad barcio mewn ardaloedd cyfyngedig ar draws Dinas a Sir Abertawe. Ceir amrywiaeth o amodau sy'n berthnasol i'r drwydded hon; fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'n rhaid bod y deiliad yn gofalu am les corfforol y preswilydd e.e. coginio, glanhau, rhoi meddyginiaeth, dyletswyddau, lle ystyrir bod angen parcio'n agos at gartref y preswilydd.

Mae'r Ganolfan Gyswllt hefyd yn trin 6,508 o geisiadau ar gyfer bathodyn glas y flwyddyn ac ar hyn o bryd mae 18,000 o ddeiliaid y fath fathodynnau. Mae'r cynllun yn galluogi pobl ag anawsterau symudedd i barcio mewn lleoliadau lle na all gyrwyr eraill barcio, fel y gallant gyrraedd yn nes at ben eu taith. Cyfyngir ar eu defnydd ac mae aelwydydd yn derbyn llyfrynnau esboniadol cynhwysfawr sy'n amlinellu eu cyfrifoldebau a'r cyfyngiad ar y defnydd o'r bathodynnau.

Dengys Tabl 5 isod nifer y trwyddedau a ddosbarthwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11.

Tabl 5


Math o drwydded	Y nifer a ddosbarthwyd yn ystod 2010/11
Trwydded Preswilydd	6520
Trwydded Ymwelydd Teuluol	426
Trwydded Ymwelydd ar Wyliau	659
Trwydded Cynorthwy-ydd Gofal	2088
Bathodynnau Glas	6508

Ym mis Ionawr 2011 dechreuodd y cyngor godi ffioedd ar aelodau etholedig a staff ym Mhenllergaer, y Ganolfan Ddinesig, Neuadd y Ddinas a lleoliadau eraill yng nghanol y ddinas i barcio yn ei feysydd parcio. Mae hyn wedi arwain at ddosbarthu cyfanswm o 3,789 o drwyddedau. Er mwyn gorfodi hyn, mae gorchmynion traffig yn cael eu cyflwyno yn y lleoliadau hyn a chaiff y rhain eu gorfodi gan Swyddogion Gorfodi Sifil.

3. Gorfodi Parcio

Cymerodd Dinas a Sir Abertawe gyfrifoldeb dros orfodi parcio ym mis Medi 2008. Mae'r cyngor yn cyflogi'r swyddogion sy'n gorfodi'r gorchmynion traffig a'r swyddogion sy'n ymdrin â sylwadau ac apelïadau'n uniongyrchol.

Isod ceir rhestr o'r staff a fu'n gweithio yn yr Is-adran Gwasanaethau Parcio pan baratowyd yr adroddiad hwn:



* *Swyddogion Gorfodi Sifil*

Felly mae 36 o swyddogion wedi'u hyfforddi fel Swyddogion Gorfodi Sifil. Mae gan swyddogion wedi'u dynodi'n SGS bwerau sy'n eu galluogi i

- roi rhybuddion o dâl cosb i gerbydau sydd wedi'u parcio yn groes i'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig,
- gorchymyn symud y cerbyd sydd wedi'i barcio fel hyn os bydd angen,
- ac archwilio bathodynau glas sydd wedi'u harddangos ar gerbydau wedi'u parcio mewn mannau lle mae'r bathodyn glas yn rhoi consesiynau parcio i'r defnyddiwr.

Mae pob swyddog yn derbyn hyfforddiant cyn dechrau ar ei ddyletswyddau ac yn ogystal â Thystysgrif Lefel 2 City & Guilds 1889 ar gyfer Swyddogion Gorfodi Sifil (Parcio) sy'n sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn o'r ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau a datrys anghydfodau parcio ar y stryd. Maent hefyd yn ymgymryd â chyfres o hyfforddiant mewnol. Mae'r hyfforddiant mewnol hwn yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth am ddisgwyliad y cyngor, dealltwriaeth o ofyniad y cyngor o ran cyflwyno gwasanaethau a chhydraddoldeb, ymwybyddiaeth anabledd, asesiad risg a chymorth cyntaf.

Mae chwech o'r swyddogion wedi'u dynodi'n arianwyr ac, yn ogystal â'u rôl fel SGS, mae ganddynt gyfrifoldeb am gasglu, cyfrif a chysoni'r arian o'r 83 o beiriannau talu ac arddangos ar draws y Ddinas a'r Sir. Maent hefyd yn gwneud gwaith cynnal a chadw arferol a mân atgyweiriadau i'r peiriannau hyn. Er mwyn cynyddu effeithlonrwydd, addaswyd y system gasglu yn ystod y cyfnod adrodd; fodd bynnag, yn unol â'r asesiad risg am y rôl hon, mae'n ofyniad i ddau swyddog gyflawni'r ddyletswydd hon.

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu swyddogion yn casglu, yn cyfrif ac yn cysoni cyfanswm o £4,254,557 o'r peiriannau talu ac arddangos hyn.

Mae swyddogion hefyd yn gweithredu yn ein meysydd parcio aml-lawr ac ym maes parcio Teras Clarence. Mae hyn yn lleihau nifer y swyddogion sydd ar gael o ddydd i ddydd i orfodi.

Mae swyddogion yn gwneud gwaith gorfodi bob dydd, gan ddechrau am 8am a gorffen am 6pm bob dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Sul. Ar ddydd Mercher, dydd Gwener a dydd Sadwrn caiff hyn ei estyn i ganol nos i ystyried y gweithgarwch cynyddol yng nghanol y ddinas gyda'r hwyr. Cynllunnir ar gyfer gwahanol ddiwyddiadau neu weithrediadau ac mae swyddogion yn gweithio y tu allan i'r oriau hyn pan fo angen eu gwasanaethau.

Y blaenoriaethau gorfodi parcio yw:

- Aros a llwytho yn ystod oriau brig (y prif lwybrau i ganol y ddinas ac oddi yno)
- Llinellau melyn unigol/dwbl ar lwybrau strategol
- Llinellau igam-ogam y tu allan i ysgolion (y rhai â Gorchmynion Rheoleiddio Traffig)
- Lleoedd â thrwydded
- Talau ac arddangos (ar y stryd ac oddi ar y stryd)
- Cyffyrdd lle mae cyfyngiadau ar waith
- Safleoedd bysus a safleoedd tacsis
- Stadiwm Liberty pan fo digwyddiad yn cael ei gynnal
- Ardaloedd masnachol y tu allan i ganol y ddinas.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd cyfanswm o 34,598 o hysbysiadau o dâl cosb. Mae hyn yn gynydd o 7763 o hysbysiadau neu 29% ar y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn uniongyrchol gysylltiedig â recriwtio 10 swyddog ychwanegol yn ystod y cyfnod adrodd. Cafodd y swyddogion hyn eu recriwtio ym mis Awst 2010. Ar ôl eu hyfforddi a chyfnod o orfodi dan oruchwyliaeth, dechreusant ar eu dyletswyddau stryd ym mis Hydref y flwyddyn honno.

Mae'n ofyniad i'r cyngor ddarparu adroddiadau ystadegol i Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref bob blwyddyn. Gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau ar y stryd yn unig sydd ei hangen yn yr adroddiadau hyn. Fodd bynnag, gan y bwriedir i'r adroddiad hwn roi trosolwg cyflawn i'r darllenydd ar weithgareddau'r Is-adran Gwasanaethau Parcio. Bydd yr ystadegau a ddarperir yn categoreiddio'r wybodaeth am orfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd.

Caiff hysbysiadau o dâl cosb eu categoreiddio naill ai fel 'ar y stryd' neu 'oddi ar y stryd' a'u rhannu hefyd yn dramgwyddau uwch neu is. Mae'r tramgwyddau uwch ac is yn cyfateb i ddirifoldeb y tramgwydd ac yn berthnasol i dramgwyddau ar y stryd ac oddi ar y stryd.

Mae'r lefelau cosb yn £70 ar gyfer tramgwydd lefel uwch a £50 am dramgwydd lefel isel. Ceir rhestr gyflawn o'r tramgwyddau wedi'u rhannu fesul categori yn 'Atodiad A' yng nghefn yr adroddiad.


Ceir gostyngiad 50% ar y ddwy gosb hon os cânt eu talu o fewn 14 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad. Fodd bynnag, os na cânt eu talu ar ôl 56 diwrnod ers eu cyflwyno, caiff gordaliad o 50% ei ychwanegu. Caiff y cyfnod gostyngiad ei estyn pe dderbynnir sylwadau yn erbyn cyflwyno'r hysbysiad o dâl cosb o fewn y cyfnod 14 diwrnod cychwynol. Mae hyn yn sicrhau na chaiff modurwyr eu difreintio os ydynt yn herio'r hysbysiad.

Gorfodi ar y Stryd:

Yn ogystal â thopograffeg a maint Dinas a Sir Abertawe, mae'r amrywiaeth o orchmynion parcio sydd ar waith yn creu her go iawn i staff gorfodi wrth reoli parcio ar y stryd. Cyfunwyd y gorchmynion yn 2008. Fodd bynnag, gan fod nifer mawr o orchmynion wedi cael eu cyflwyno, fe'u cyfunwyd ymhellach ym mis Mawrth 2011.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd cyfanswm o 26,070 o hysbysiadau o dâl cosb ar y stryd. Dengys siart 1 isod y gyfradd gyflwyno fisol ar gyfer y cyfnod adrodd.

Siart 1



Mae Tabl 6 isod yn nodi'r tramgwyddau amrywiol ac, fel y gwelir, mae'r nifer uchaf o dramgwyddau yn ymwneud â pharcio mewn strydoedd cyfyngedig (h.y. ar linellau melyn dwbl) a pharcio mewn cilfannau preswylwyr heb ddangos trwydded.

Tabl 6

Côd y Tramgwydd	Tramgwydd	Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a Gyflwynwyd
01	Parcio ar ffordd gyfyngedig	8001
02	Llwytho mewn stryd gyfyngedig	2404
05	Wedi parcio ar ôl yr amser y talwyd amdano	68
06	Wedi parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos neu daleb yn glir	191
12	Wedi parcio mewn cilfan breswlydd	4049
16	Wedi parcio mewn lle trwydded	259

19	Wedi parcio mewn cilfan breswlydd neu mewn cilfan defnydd a rennir gan ddangos trwydded annilys	561
21	Wedi parcio mewn cilfan ohiriedig	57
22	Wedi ailbarcio o fewn amser gwaharddedig	33
23	Dosbarth anghywir o gerbyd	148
24	Ddim wedi parcio'n gywir	47
25	Wedi parcio mewn cilfan lwytho	3962
26	Parcio dwbl	38
27	Droedffordd isel	20
30	Wedi parcio am gyfnod hwy na'r hyn a ganiateir	4258
40	Lle parcio i berson anabl	1013
42	Cerbydau'r heddlu	2
45	Safle tacsis	339
46	Clirffordd	1221
47	Safle bws cyfyngedig	237
48	Ardal ysgol gyfyngedig	47
49	Llwybr neu lôn feicio	8
99	Croesfan i gerddwyr	84
	Cyfanswm	27,047


Yn ogystal â'r manylion uchod, cyflwynwyd 1,099 o rybuddion o ran tramgwyddau parcio ar y stryd. Cyflwynir rhybuddion gan swyddogion pan na ellir gorfodi gorchymyn traffig oherwydd problemau arwyddion neu linellau. Cyflwynir rhybuddion i atgoffa'r gyrrwr o'i gyfrifoldebau a hefyd i ddangos i'r cyhoedd neu breswylwyr bod swyddogion yn patrolio yn yr ardal.

Gorfodi oddi ar y Stryd:

Mae system orfodi effeithiol ac effeithlon yn ein meysydd parcio yn sicrhau bod modurwyr sy'n defnyddio'r meysydd parcio yn talu i barcio a hefyd yn cadw at yr amser maent wedi talu amdano. Yn ogystal, mae'n sicrhau bod modurwyr yn parcio mewn cilfannau parcio ac nad ydynt yn rhwystro'r cilfannau a'r ffyrdd gan greu anghyfleustra i ddefnyddwyr eraill y maes parcio.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd cyfanswm o 8,528 o hysbysiadau o dâl cosb oddi ar y stryd. Dengys siart 2 isod y gyfradd gyflwyno fisol ar gyfer y cyfnod adrodd.

Siart 2



Mae Tabl 7 isod yn nodi'r tramgwyddau amrywiol ac, fel a ddangosir, mae nifer mwyaf y tramgwyddau'n ymwneud â pheidio ag arddangos tocyn parcio'n glir.

Tabl 7

Côd y Tramgwydd	Tramgwydd	Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a Gyflwynwyd
70	Parcio mewn ardal lwytho	1
80	Wedi parcio am gyfnod hwy na'r hyn a ganiateir	24
81	Wedi parcio mewn ardal gyfyngedig	67
82	Wedi parcio ar ôl yr amser y talwyd amdano	1966
83	Wedi parcio heb arddangos tocyn yn glir	5200
84	Ychwanegu arian at y tocyn	6
85	Wedi parcio mewn lle trwydded	958
86	Wedi parcio y tu hwnt i farciau'r gilfan	131
87	Parcio mewn lle i berson anabl heb fathodyn	463
91	Dosbarth anghywir o gerbyd	23
92	Rhwystro	10
93	Parcio mewn maes parcio oedd ar gau	1
	Cyfanswm	8,850

4. Heriau, Cynrychiolaethau ac Apeliadau

Mae pob hysbysiad o dâl cosb yn cynnwys manylion am sut i wneud apêl. Mae staff y cyngor yn ymateb i bob gohebiaeth ar bob cam o'r broses apelio. Yn ogystal, mae gwybodaeth ar ein gwefan am y broses apelio a dolenni i

Gymdeithas Barcio Prydain a PATROL (Parcio a Rheoliadau Traffig y tu allan i Lundain).

Ein nod yw sicrhau bod ein llythyrâu yn rhoi gwybodaeth am y prosesau ac mae ein staff yn ymrwymedig i ddefnyddio ymagwedd deg, dryloyw a chyson at heriau, cynrychiolaethau ac apelïadau yn erbyn hysbysïadau o dâl cosb.

Yn ystod y cyfnod adrodd derbyniwyd 14,735 o eitemau o bost ac anfonwyd 32,838 naill ai mewn ymateb i'r eitemau a dderbyniwyd neu o ganlyniad i beidio ag ymateb i hysbysïad o dâl cosb neu ohebiaeth ddilynol a anfonwyd at berchennog cofrestredig y cerbyd.

Yr amser cyfartalog i ymateb i bost a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd oedd 93%. Oherwydd prinder staff yn bennaf, roedd adegau pan oedd gohebiaeth yn ôl-gronni neu lefelau'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn amrywio. Rydym yn ymrwymedig i ddatrys problemau o'r fath ac rydym yn trafod â'n cyflenwyr meddalwedd i ddatblygu system a fydd yn ein galluogi i recriwtio staff i drin unrhyw ôl-gronniad o'r fath yn ogystal â gwella ein hamser ymateb. Bydd y meddalwedd hefyd yn sicrhau cysondeb gwell trwy gael gwared ymhellach ar y goddrychedd wrth wneud penderfynïadau. Wedi dweud hynny, byddwn bob tro yn wynebu heriau a fydd y tu hwnt i'r diffiniadau cyffredinol ac, yn amlwg, mewn achosion o'r fath bydd modd i reolwyr neu oruchwylwyr gymryd rheolaeth o ymatebion.

Ceir tri cham i broses apelïo.

1. Cynrychiolaethau Anffurfiol

Gall gyrrwr y cerbyd sydd wedi derbyn hysbysïad o dâl cosb ysgrifennu at Is-adran Gwasanaethau Parcio'r cyngor os yw'n ystyried bod yr hysbysïad wedi'i gyflwyno ar gam neu mae amgylchiadau argyhoeddiadol dros ei ddiddymu. Ar hyn o bryd mae'n rhaid cyflwyno'r fath apêl yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Rhagwelir y caiff systemau eu datblygu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf i alluogi creu heriau trwy ffurflen we. Polisi'r cyngor yw ymateb i un her o'r fath fesul hysbysïad o dâl cosb yn unig oherwydd camau eraill y broses apelïo sydd ar gael.

2. Heriau Ffurfiol

Os na dderbynnir tâl o fewn 28 niwrnod i ddyddiad cyflwyno'r hysbysïad o dâl cosb, bydd y cyngor yn gofyn am fanylion perchennog y cerbyd gan y DVLA. Yna bydd y perchennog yn derbyn Hysbysïad i'r Perchennog. Mae'r ddogfen hon yn gofyn i'r perchennog dalu'r hysbysïad o dâl cosb ar y pris llawn. Mae deddfwriaeth yn gwneud y perchennog yn gyfrifol am y ddyled hyd yn oed os nad ef/hi oedd y gyrrwr pan gyflawnwyd y tramgwydd. Yn aml, mae hyn yn achosi dryswch ac anniddigrwydd ac yn aml mae'n peri i'r perchennog dig ffonio'r is-adran i gwyno. Mae llawer o'r galwadau ffôn hyn yn fygythiol ac mae angen i'r staff ymdrin â'r perchennog mewn ffordd bwylllog a diplomyddol. Mae'r DVLA yn

rhoi gwybod i ni pwy yw'r perchennog yn ôl ei gofnodion. Mae nifer o fodurwyr yn methu rhoi gwybod i'r DVLA am newid yn y manylion perchnogaeth ac mae hyn eto'n achosi cryn ddryswch.

Ar yr adeg hon, gall y perchennog naill ai talu'r swm sy'n ddyledus neu gyflwyno cynrychiolaeth ffurfiol gan roi resymau pam mae'r hysbysiad o dâl cosb wedi cael ei roi ar gam, rhesymau pam nad yw'r perchennog yn atebol neu resymau argyhoeddiadol pam y dylid ei ddiddymu.

3. Apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig

Os bydd y cyngor yn gwrthod y cynrychiolaethau ffurfiol, gall y perchennog apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig. Darperir y ffurflen i wneud yr apêl gan y cyngor gyda'i lythyr gwrthod. Corff cwbl annibynnol yw'r Tribiwnlys Cosbau Traffig a chaiff y dyfarnwyr eu penodi gan yr Arglwydd Ganghellor. Gellir clywed apeliadau mewn tref neu ddinas o ddewis yr apelydd trwy fod yn bresennol yn bersonol neu drwy ymdrin â nhw dros y ffôn neu drwy dystiolaeth ysgrifenedig. Fel arfer mae penderfyniad y beirniad yn rhwymol ar y ddwy ochr; fodd bynnag, mewn achosion eithriadol ceir cyfleoedd i'r naill ochr herio'r penderfyniad.

Os caiff yr apêl ei gwrthod, bydd yr apelydd yn atebol am y gosb.

Yn ystod y cyfnod adrodd pan gyflwynwyd 34,598 o hysbysiadau o dâl cosb, cafodd 3,510 neu 10% eu hatal. Cafodd 2,675 eu hatal ar ôl derbyn her anffurfiol. Ataliwyd 752 ar ôl derbyn cynrychiolaeth ffurfiol ac 83 ar ôl cyflwyno'r dystysgrif codi tâl.

Derbyniodd y Tribiwnlys Apeliadau Traffig 84 o apeliadau. O'r rhain, roedd 23 heb eu herio gan y cyngor, cafodd 18 eu cynnal a chafodd 41 eu gwrthod. Nid yw dau achos a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod adrodd wedi cael eu clywed erbyn llunio'r adroddiad hwn.

Mae nifer o fodurwyr, am ba resymau bynnag, yn dewis anwybyddu'r hysbysiadau o dâl cosb a'r holl ohebiaeth a anfonir atynt. Mewn achosion o'r fath mae'r ddeddfwriaeth yn amlinellu sut yr ymdrinnir â'r fath achosion. Caiff achosion lle nad yw'r gosb wedi cael ei thalu eu cyfeirio i Lys Sirol Northampton sy'n ymdrin â'r holl faterion sy'n ymwneud â thraffig ar gyfer Cymru a Lloegr.

Bydd y cyngor yn gwneud apêl i gyflwyno gwarant adennill dyled ac os caiff hyn ei gymeradwyo, caiff hyn ei drosglwyddo i un neu ddau gwmni adennill dyled sy'n gweithio i'r cyngor. Maent hefyd yn ysgrifennu at yr unigolyn. Fodd bynnag, os na chaiff y gosb ei thalu o hyd, maent yn cyfarwyddo beiliau sy'n gyfrifol am adennill y ddyled neu, mewn termau cyfreithiol, 'atafaelu'.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd £111,514 ei adennill gan y ddau gwmni. Mae hyn yn golygu cyfradd adennill o 44%. Mewn sawl achos nid oes gan yr unigolyn unrhyw asedau o werth neu mae wedi cyflwyno gorchymyn lliniaru dyled. Ni all rhywun wneud cais am orchymyn lliniaru dyled oni bai bod ganddo/i ddyledion o lai na £15k ac nad yw'n ddeiliad tŷ. Pan gaiff y fath orchymyn ei dderbyn, mae'n

rhaid i'r cwmni adennill dyled ddychwelyd y warant i'r cyngor a chaiff y mater ei ddileu.

5. Gwybodaeth Ariannol

Mae'r gyllideb CPE yn cynnwys incwm a geir o feysydd parcio talu ac arddangos a Hysbysiadau o Dâl Cosb. Dengys tabl 8 yr incwm o'r ffynonellau hyn. Mae'r incwm a geir o daliadau ar y stryd a gorfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd yn destun cyfyngiadau a orfodir gan Adran 55 Deddf Rheoleiddio Traffig 1984, fel y'i diwygiwyd o fis Hydref 2004 gan Adran 95 Deddf Rheoli Traffig 2004 a Rheoliad 10 Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio 2008 (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2).

Yn ôl is-adran 2 deddf 1984:

(2) Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gwneir yn iawn am unrhyw ddiffyg yn y cyfrif o'r [gronfa gyffredinol neu, yng Nghymru, gronfa'r cyngor] ac, yn amodol ar is-adran (3) isod, caiff unrhyw warged ei ychwanegu at bob un o'r dibenion a nodir yn is-adran (4) isod neu unrhyw un ohonynt ac, i'r graddau na chaiff ei ychwanegu, fe'i defnyddir i gynnal prosiect penodol sy'n rhan o'r dibenion hynny a pharheir â hyn nes gorffen ei gyflawni.

Mae'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth yn clustnodi unrhyw warged ar gyfer dibenion penodol, gan gynnwys darparu neu gynnal parcio oddi ar y stryd, gwella priffyrdd a materion amgylcheddol.

Tabl 8

Ffynhonnell Incwm	Incwm
Hysbysiadau o Dâl Cosb: Ar y Stryd	£910,933
Hysbysiadau o Dâl Cosb: Oddi ar y Stryd	£230,979
Talu ac Arddangos Stryd Plymouth a Stryd Rhydychen	£5,496
Cyfanswm	£1,147,408

Rhestrir isod y gwariant i'w osod yn erbyn taliadau ar y stryd ac oddi ar y stryd o hysbysiadau o dâl cosb o ran tramgwyddau ar y stryd yn nhabl 9.

Tabl 9

Gwariant	Ar y Stryd
Costau cyflogaeth	£633k
Costau/rhent y safle	£21.5k
Trafnidiaeth	£3k
Cyflenwadau a Gwasanaethau	£41k
Taliadau Cardiau Gwasanaethau Ariannol	£57k

CLG a Dyrannu Rheolwyr	£38k
Llofnodi	£11.5k
Cyfanswm	£805k

Felly adroddwyd bod gwarged o £340,887 trwy orfodi tramgwyddau ar y stryd ac oddi ar y stryd.

Fel a nodwyd ym mharagraff 5.1, mae'n rhaid defnyddio unrhyw warged at ddibenion penodol. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y tri chynllun parcio a theithio a weithredir gan y cyngor wedi colli £514k. Yn ôl is-adran 4B Deddf 1984:

'talu costau'r awdurdod lleol yn llawn, neu'n rhannol, i ddarparu a chynnal a chadw [mannau parcio oddi ar y stryd, boed hynny yn yr awyr agored neu dan do;]'

Mae meysydd parcio mewn safleoedd parcio a theithio'n darparu dewis pwysig i fodurwyr sy'n ymweld â'r ddinas unwaith yn unig neu'n rheolaidd. Mae lleihau llif y traffig i ganol y ddinas nid yn unig yn cael effaith ar dagfeydd ond hefyd yn lleihau lefelau llygredd sy'n anodd eu rheoli ar lwybrau prifwythiennol i ganol y ddinas ac ohoni. Mae parcio a theithio hefyd yn cefnogi'r gymuned fusnes trwy ddarparu maes parcio fforddiadwy i weithwyr a siopwyr canol y ddinas. Felly mae gofyniad i sicrhau bod gweithredoedd y gwasanaethau gwerthfawr hyn yn parhau.

Yr incwm net o feysydd parcio yn ystod y cyfnod adrodd oedd £2,921,828. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw hyn yn ystyried yr incwm o'r meysydd parcio a reolir gan adrannau eraill y cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys maes parcio Singleton, maes parcio'r Rec, maes parcio blaendraeth San Helen a maes parcio Knab Rock. Caiff y meysydd parcio hyn eu rheoli gan yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth a chedwir yr incwm gwerth £384k yn eu cyllideb.

Mae Tabl 10 yn rhestru'r meysydd parcio y mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio atynt ac mae hefyd yn darparu gwybodaeth am nifer y lleoedd, cyfanswm yr incwm ar gyfer pob maes parcio a hefyd incwm cyfartalog fesul lle.

Tabl 10

Maes Parcio	Lleoedd	Cyfanswm yr Incwm Net	Incwm Cyfartalog Fesul Lle
Bae Bracelet	220	£76,672	£349
Bae Caswell	150	£90,813	£605
Bryn Caswell	52	£6,884	£132
Teras Clarence	77	£55,182	£717
Gerddi Clun	138	£37,969	£275
East Burrows	230	£81,794	£356

Maes Parcio Aml-Lawr y Stryd Fawr	722	£209,571	£290
Horton	160	£10,597	£66
Langland	265	£105,267	£397
Stryd Mariner	107	£122,861	£1,148
Lôn Northampton	84	£58,335	£694
Stryd Rhydychen	116	£205,340	£1,770
Blaendraeth Ystumllwynarth	68	£54,714	£805
Dwyrain Stryd y Parc	31	£46,735	£1,508
Gorllewin Stryd y Parc	15	£13,522	£901
Stryd Paxton	331	£57,802	£175
Stryd Pell	30	£61,269	£2,042
Glanfa Pockett	53	£7,100	£134
Porth Einon	372	£51,135	£137
Y Strand	218	£186,539	£856
Maes Parcio Aml-lawr y Cwadrant	517	£699,266	£1,353
Y Chwarel	71	£49,538	£698
Salubrious Place	26	£12,851	£494
Lôn Sgeti	31	£33,550	£1,082
Southend	48	£48,432	£1,009
Maes Parcio Aml-Lawr Dewi Sant	460	£402,361	£875
The Bush	40	£22,813	£570
Y Llaethdy	38	£51,563	£1,357
Worcester Place	21	£25,841	£1,231
YMCA	25	£35,514	£1,421
Cyfanswm		£2,921,828	£620

5. Cerbydau Wedi'u Gadael

Mae swyddog yn yr Is-adran Gwasanaethau Parcio sydd â chyfrifoldeb benodol am ymchwilio i gwynion am gerbydau wedi'u gadael neu wedi'u llosgi'n llwyr.

Mae symud cerbydau wedi'u gadael neu wedi'u llosgi a'r rhai sy'n anaddas i'r ffordd yn fater allweddol wrth wella diogelwch ar ein ffyrdd ac yn ein cymunedau. Mae Cynllun Symud Cerbydau Dinas a Sir Abertawe wedi'i gydnabod fel enghraifft o arfer gorau, yn bennaf oherwydd ei nod i gael gwared ar y modd i gyflawni trosedd.

Trwy gael gwared ar gerbydau sydd wedi'u gadael, sydd wedi'u llosgi ac sy'n anaddas i'r ffordd, rydym wedi llwyddo i leihau nifer y cerbydau a losgir yn fwriadol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn arbed cryn dipyn i'r trethdalwyr gan fod pob tân cerbyd yn costio dros £4,000 i'r gwasanaeth tân ac mae costau'r llys ar ben hynny'n cynyddu'r arbediad ymhellach.

Mae'r Tîm Cerbydau Wedi'u Gadael yn derbyn dros 30 o alwadau'r wythnos ar y llinell gymorth ynglŷn â cherbydau sydd wedi'u gadael, sy'n beryglus ac sy'n anaddas i'r ffordd

Cofnodir yr adroddiadau hyn mewn cronfa ddata gyda'r holl wybodaeth berthnasol, h.y.

- gwneuthuriad, model a lliw'r cerbyd
- rhif cofrestru
- lleoliad a chyflwr y cerbyd.

Cynhelir gwiriad DVLA i gael manylion y ceidwad presennol cyn cynnal gwiriad cerbydau ar y safle gan yr Arolygydd Cerbydau Wedi'u Gadael. Ger y cerbyd, bydd yr arolygydd yn cwblhau adroddiad am gyflwr y cerbyd i asesu'r math o waredu sy'n angenrheidiol.

Os ystyrir bod y cerbyd mewn cyflwr peryglus, ymdrinnir ag ef fel gwarediad blaenoriaeth a chaiff ei waredu o fewn 24 awr. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar leihau nifer y cerbydau a losgir yn fwriadol yn ardal Abertawe.

Nid yw'r rhan fwyaf o gerbydau sy'n cael eu gwaredu gan y bartneriaeth yn gofrestredig; mewn geiriau eraill, maent wedi cael eu gwerthu ymlaen o berchennog blaenorol heb gyflwyno manylion y perchennog newydd i'r DVLA.

Yn ystod y cyfnod adrodd derbyniwyd ac ymchwiliwyd i 703 o gwynion. Arweiniodd hyn at waredu 265 o gerbydau wedi'u gadael a cherbydau sy'n anaddas i'r ffordd.

Yn ogystal, gan weithio mewn partneriaeth â'r DVLA o dan bwerau wedi'u datganoli, mae gan y swyddog yr awdurdod i waredu cerbydau heb eu trethu o ffyrdd cyhoeddus.

Yn ystod y cyfnod adrodd derbyniwyd ac ymchwiliwyd i 703 o gwynion.
Arweiniodd hyn at waredu 265 o gerbydau wedi'u gadael, sy'n anaddas i'r
ffordd neu sydd heb eu trethu.